# Themâu sy’n cael eu Cwmpasu

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

1. Mynediad a Hamdden
2. Ansawdd Aer
3. Bioamrywiaeth
4. Busnesau
5. Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth
6. Diogelwch Cymunedol
7. Dementia
8. Anweithgarwch Economaidd
9. Addysg a Chyflogaeth
10. Cyflogaeth ac Incwm
11. Llifogydd
12. Tipio Anghyfreithlon
13. Tirlithriadau
14. Iechyd Meddwl
15. Treftadaeth, Diwylliant a'r Gymraeg
16. Tai a Digartrefedd
17. Gordewdra
18. Tlodi
19. Aelwydydd Sengl
20. Seinweddau a Llygredd Sŵn
21. Defnyddio Adnoddau Naturiol
22. Tanau Gwyllt
23. Iechyd Dŵr
24. Troseddau Ieuenctid
25. Gwirfoddoli

Strategaethau a Chynlluniau Allweddol Cyfredol

# Chwaraeon a Hamdden

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

**1550+** cilomedr

Hawliau tramwy cyhoeddus ar draws Cwm Taf Morgannwg





**57%** Aelwydydd ym Merthyr Tudful sy'n byw ger mannau gwyrdd naturiol hygyrch

Mae 95 hectar o fannau gwyrdd naturiol hygyrch ym Merthyr Tudful o'i gymharu â 58 hectar ym Mhen-y-bont ar Ogwr; a 52 hectar yn RCT.

Roedd hyn yn amhrisiadwy wrth gefnogi cymunedau i gynnal iechyd corfforol a meddyliol da yn ystod y cyfyngiadau symud




Mae gan Ferthyr Tudful y drydedd ardal fwyaf yn ôl poblogaeth

Yn 2020, sicrhaodd Merthyr Tudful 4 gwobr y Faner Werdd:

- Parc Cyfarthfa
- Parc Taf Bargoed
- Mynwent Aberfan
- Parc Thomastown

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Gall darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer mynediad diogel a hamdden i bawb drwy ddefnyddio asedau naturiol ardal CTM ddod â buddion nid yn unig i gymunedau lleol ond hefyd i'r amgylchedd a'r economi.

Bydd cynnal y mannau agored, hygyrch hyn yng ngoleuni'r anghenion tai uchel yn densiwn y bydd yn rhaid ei reoli

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Nododd yr ymarfer asesu anghenion y cyfle i **grwpiau cerdded gyflwyno pobl i'w mannau gwyrdd**, a thrwy hynny gysylltu pobl a'u helpu i ddysgu am dreftadaeth a'r ardal.
- Roedd **hygyrchedd** yn broblem gyda rhai mannau gwyrdd yn anhygyrch i'r rhai â phroblemau symudedd. Er bod natur yn dda ar gyfer lles meddyliol, roedd llawer yn teimlo eu bod wedi'u heithrio. Dywedodd y gymuned fyddar fod cael gafael ar wybodaeth drwy iaith arwyddion yn anodd, bod cysylltiadau trafnidiaeth i ardaloedd gwyrdd yn wael ac mae gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem i lawer.

Tackling Poverty Together

# Ansawdd Aer

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn disgrifio **ansawdd aer gwael fel argyfwng iechyd brys**, yn ail i ysmygu yn unig

**Rhif 1** Ysmygu

**Rhif 2** Ansawdd aer gwa



Amcangyfrifir bod llygredd aer yn costio

**£1 biliwn i Gymru bob blwyddyn**

Mae hyn yn cynnwys diwrnodau gwaith a gol

Mae **allyriadau traffig ffyrdd yn cyfrif am 2/3 o lygredd aer**; sy'n cynhyrchu deunydd gronynnol a $NO_2$




Mae nifer o **ardaloedd rheoli ansawdd aer** ar draws Cwm Taf Morgannwg:

| Pen-y-bont ar Ogwr | Merthyr Tudful | RCT |
|---|---|---|
| **1 (un)** | **1 (un)** | **16 (un ar bymtheg)** |

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae costau cymdeithasol enfawr i ansawdd aer gwael trwy ei effeithiau ar iechyd, ac effeithiau andwyol ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae cyfleoedd i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy **hyrwyddo a gweithredu atebion teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy**. Ar gyfer teithiau hirach, mae defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â cherdded a beicio hefyd yn cefnogi gwelliant. Bydd y ddau hyn yn lleihau faint o gerbydau sydd ar y ffordd os byddant yn llwyddiannus; a byddent yn cynhyrchu gwelliant bach yn ansawdd yr aer.

# Bioamrywiaeth

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Heb eco-system iach, byddai'r byd yn araf ddod i stop.  Os byddwn ni'n profi gwydnwch ecosystemau sy'n dirywio, mae hyn yn bygwth gallu adnoddau naturiol i ddarparu buddion i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Canran y rhywogaethau yng Nghymru sydd mewn perygl o ddiflannu **17%**



Mae gostyngiad o **13%** yn niferoedd cyfartalog bywyd gwyllt; gyda **6%** o hyn yn digwydd yn y degawd diwethaf

Mae'r pwysau sydd wedi cyfrannu at golli bioamrywiaeth yn cynnwys:



Rheoli fferm



Rheoli coetir



Llygredd pridd



Newid hydrolegol



Trefoli cynyddol



Newid hinsawdd




Rhywogaethau ymledol

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Ymateb i golli bioamrywiaeth a'r argyfwng natur

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Nododd y gwaith ymgysylltu â'r gymuned leol bwysigrwydd gwarchod bywyd gwyllt a bioamrywiaeth i roi lles amgylcheddol gydag awgrymiadau i greu cynefinoedd a llwybrau glas cysylltiedig, plannu coed a choedwigoedd a lleihau sbwriel sy'n peri risg i fywyd gwyllt.
- Codwyd adfywio canol y dref, effaith adeiladu datblygiadau a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gan gymunedau.  Gallai rhoi cyhoeddusrwydd mwy penodol i'r ffordd yr ystyriwyd y rhain helpu i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli anghenion bioamrywiaeth helpu i leddfu pryderon.

# Busnesau

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae tuedd gyffredinol sy'n dangos gostyngiad mewn gweithgarwch yn y sector manwerthu ledled Cymru; gyda'r data ar gyfer mentrau gweithredol ar draws Cwm Taf Morgannwg yn dangos bod y niferoedd wedi aros yn gymharol gyson ar draws Merthyr Tudful; RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr

**-64%**

Roedd effaith y sefyllfaoedd cloi brys a gododd o ganlyniad i Covid-19 yn uniongyrchol ac yn sylweddol — cofnododd busnes ostyngiad o 64% mewn trosiant rhwng 18 Mai a 31 Mai 2020

Cofnododd busnesau ostyngiad mewn trosiant o fwy na hanner **23%**

Ledled Cwm Taf Morgannwg; mae data CThEM yn dangos bod y Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (ffyrlo) wedi'i gyrchu'n helaeth gan bob un o'r tair ardal yn y rhanbarth ym mis Mehefin 2020

| Merthyr Tudful | RCT | Pen-y-bont ar Ogwr |
|---|---|---|
| **6,000** | **23,400** | **15,300** |

Mae'r sectorau busnes sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig yn cynnwys:



Llety
Llefydd i Aros



Gwasanaethau bwyd



Theatr a'r Celfyddydau



Twristiaeth



Manwerthu/siopa

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Cefnogi adferiad busnesau yn y sectorau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig (e.e.) hamdden a thwristiaeth; a lletygarwch

Cefnogi busnesau i arallgyfeirio i fodloni heriau amgylcheddol; newidiadau gydag adeiladu a chyfleustodau ac ati.

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Roedd pryder y byddai pobl ifanc yn mudo allan o'r ardal heb gyfleoedd gwaith lleol da. Roedd yn bwysig i'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgareddau ymgysylltu y **byddai gwell swyddi a sgiliau yn dod â mwy o incwm i'r economi leol yn ogystal â chadw 'doniau lleol' gan ddarparu cyfleoedd i bobl iau**.
- Gall y gwaith hwn gysylltu ag ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch yn ogystal â busnesau lleol a phartneriaeth sgiliau Dinas-Ranbarth Caerdydd.

# Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ar draws ôl troed Cwm Taf

Ym Merthyr Tudful, gostyngodd nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn

**485** (2019) → **430** (2020)

Mae llawer o ffactorau sy'n arwain at blant angen gofal a chymorth; mae rhai ohonynt wedi'u dangos isod. Ym Merthyr Tudful, mae data'n dangos bod y materion canlynol wedi arwain at blant angen gofal a chymorth yn 2020

| Camddefnyddio sylweddau ac alcohol gan rieni | Anableddau dysgu rhieni | Salwch meddwl rhieni | Afiechyd corfforol rhieni | Cam-drin domestig |
|---|---|---|---|---|
| **37** | **3** | **31** | **6** | **38** |
| I fyny 4 ar 2019 | I lawr 1 ar 2019 | I lawr 3 ar 2019 | I lawr 1 ar 2019 | I lawr 5 ar 2019 |

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Ymateb i arwyddion cynnar Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) i ddarparu cymorth ac ymyriadau cynnar i atal uwchgyfeirio at wasanaethau statudol

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac atal bellach wedi'u hymgorffori yn y cymorth i blant a theuluoedd gyda'r rhaglenni **Dechrau'n Deg** a **Teuluoedd yn Gyntaf**. Mae gan y ddwy raglen hon flaenoriaeth ar gyfer cymorth yn y blynyddoedd cynnar.
- **Hybiau Cymunedol** sy'n darparu gwasanaeth lleol gyda mwy o ffocws ar gymuned i'r rhai sy'n cael cymorth. Gall hyn helpu gyda defnydd o wasanaethau yn y dyfodol yn ôl yr angen.
- Mae plant yn cael mynediad at **Therapi Iaith a Lleferydd** fel rhan o'r cynnig yn wasanaeth hanfodol i'r rhai sydd ag anghenion cyfathrebu. Gall effaith peidio â delio â materion cyfathrebu yn gynnar gael effaith niweidiol ar blant wrth iddyn nhw symud drwy'r ysgol, felly mae'n elfen bwysig o'r cynnig.

Tackling Poverty Together

# Diogelwch Cymunedol

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos



**Trais yn erbyn yr unigolyn** yw'r drosedd uchaf a gofnodwyd ar draws ôl troed Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Cwm Taf

Gwelwyd bod **troseddau casineb** wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ym Merthyr Tudful →

2018/19 - **60**
2019/20 - **87**
2020/21 - **110**



**2,000+** →

Cafodd dioddefwyr **cam-drin domestig** eu cefnogi yng Nghwm Taf Morgannwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Ym Merthyr Tudful, mae data yn dangos bod nifer yr achosion o droseddau cam-drin domestig yn gostwng yn raddol




Mae data'n dangos i ni fod nifer yr achosion o **ymddygiad gwrthgymdeithasol** wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn **ym Merthyr Tudful**

2018/19 **370** o achosion
2019/20 **567** o achosion
2020/21 **795** o achosion



## Heriau Allweddol a Nodwyd

Lle mae data Cymru gyfan yn dangos cynnydd graddol yn nifer y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn eu hardal leol, ac wrth deithio wedi cynyddu; mae'r data a gasglwyd ar gyfer Cwm Taf yn dangos gostyngiad o 2016/17 (62.8%); i 2018/19 (58.6); gyda phobl 75+ mlwydd oed yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel

Mae troseddau casineb wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ym Merthyr Tudful; gyda'r lefel uchaf o adroddiadau am droseddau casineb yn ymwneud â hil neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol dros y 3 blynedd diwethaf (er ar gyfer y cyfnod 2020-21, mae'r data'n cynnwys manylion achosion lle torrwyd rheoliadau Covid-19, a dylid ystyried y ffactor hwn)

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae cyfleoedd i **godi proffil mentrau diogelwch cymunedol** ar draws yr ardal i gefnogi cymunedau i ddeall yn well yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd, gyda'r bwriad o leihau ofn troseddu.
- **Adolygu ac ailffocysu strategaethau/cynlluniau diogelwch cymunedol presennol** ar lefel leol; a chefnogi cyflwyno'r rhain gyda Chynllun Cyfathrebu fel bod tystiolaeth o sut mae negeseuon allweddol wedi'u rhaeadru ac effaith y rhain ar lefelau digwyddiadau.
- Mae data Merthyr Tudful yn dangos nifer uwch o droseddau casineb yn cael eu riportio yn ymwneud â hil a chyfeiriadedd rhywiol. Parhaodd y rhain i gynyddu yn 2020/21 gyda chynnydd o 60% yn y troseddau casineb a adroddwyd yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol. **Gellid ystyried gweithgareddau/ymarferion i**

# Dementia

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Ar gyfer clwstwr
Meddygon Teulu **Gogledd Merthyr**

**223 (0.6%)**

o'r boblogaeth wedi cael diagnosis dementia

Ar gyfer clwstwr
Meddygon Teulu **De Merthyr**

**110 (0.4%)**

o'r boblogaeth wedi cael diagnosis dementia

Mae **rhagamcanion data dementia** yn dangos y bydd y nifer a ragwelir o bobl 65+ mlwydd oed a fydd â dementia yn parhau i gynyddu




Mae Cymdeithas Alzheimer yn tynnu sylw at nifer o feysydd ffocws a all, os byddant yn cael sylw, **leihau'r ffactorau risg dementia**: mae'r rhain yn cynnwys:


Gweithgarwch corfforol


Deiet Cytbwys


Ymarfer y Meddwl


Rhoi'r gorau i ysmygu


Lleihau'r Defnydd o Alcohol

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae dementia yn y rhanbarth yn cynyddu gyda chynnydd amlwg yn RhCT o'i gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Bydd mentrau yn y cymunedau ac mewn gwaith sy'n darparu cymorth a gwybodaeth am ddementia yn cynorthwyo'r rhai sy'n byw gyda dementia yn ogystal â gofalwyr teulu a ffrindiau

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Nododd adborth o'r gweithgareddau ymgysylltu fod angen gwell gofal iechyd a gofal cymdeithasol gyda mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol. Cafwyd trafodaeth ynghylch **mwy o ddefnydd o bresgripsiynu cymdeithasol i wella lles** a **mwy** o **ystyriaeth i rôl gofalwyr**, roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n gofalu am rywun sy'n byw gyda dementia.
- Mae cynlluniau eisoes yn cael eu datblygu i ddelio â'r cynnydd mewn gwasanaethau dementia a chymorth y bydd eu hangen yn y dyfodol o safbwynt iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn ystyried yr angen i **ddarparu mwy o adnoddau cymunedol** sy'n cael eu datblygu fel Hybiau Iechyd a Lles yng Nghwm Taf.

# Anweithgarwch Economaidd

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Roedd y **gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer y rhai 16-64 mlwydd oed** (ac eithrio myfyrwyr) wedi bod yn adfer; fodd bynnag, mae effaith Covid-19 wedi gweld cynnydd mewn lefelau anweithgarwch




Y rhai rhwng **25 — 49** oed sydd â'r gyfradd gweithgarwch economaidd isaf

Mae data 2020 yn dangos bod gan **fenywod 25-49 mlwydd oed** gyfr anweithgarwch economaidd o **20.2%**

Tra bod data 2020 yn dangos bod gan **ddynion 25-49 mlwydd oed** gy anweithgarwch ec aidd o 12.3%

Mae'r data Credyd Cynhwysol (CC) a ddarparwyd gan DWP yn dangos bod **nifer y bobl ym Merthyr Tudful sy'n hawlio Credyd Cynhwysol** wedi tyfu

2019 - **2,113** to 2021 - **6,469**

Y wardiau sydd â'r nifer uchaf o hawlwyr Credyd Cynhwysol ym Merthyr Tudful yw: Gurnos Dowlais Cyfarthfa

Y wardiau sydd â'r nifer isaf o hawlwyr Credyd Cynhwysol ym Merthyr Tudful yw: Y Faenor Parc Bedlinog

**Gall hawlwyr Credyd Cynhwysol fod yn hawlio ond yn dal i fod mewn gwaith** — gallent fod mewn rolau â chyflog is ac angen swm ychwanegol i dalu eu treuliau sylfaenol

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Bu effaith Covid yn anodd i rai busnesau — pe bai hyn yn parhau gallai olygu bod mwy o bobl yn economaidd anweithgar

Gallai nodi'r meysydd o angen a darparu hyfforddiant sgiliau i lenwi bylchau lle mae cyfleoedd gael ei lesteirio o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol sydd wedi derbyn cyllid tymor hwy o gronfeydd rhaglenni Ewropeaidd (ESF).

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae data'n dangos bod cyfraddau anweithgarwch benywod o'u cymharu â dynion yn uwch ar draws pob maes — gan ystyried sut y gallwn **wella'r cymorth sydd ar gael i fenywod, yn enwedig o ran gofal plant**; gallem eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau a chwilio am waith rhan-amser
- Mae nifer cynyddol o aelwydydd yn gweithio ac sydd ag incwm isel absoliwt. Drwy **ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnig hyfforddiant a gwella sgiliau**, roedd yn allweddol i wella rhagolygon swyddi a hyder — yn enwedig mewn diwydiannau sy'n datblygu
- Yn dibynnu ar y dyraniad cyllid sy'n debygol o ddod gan y llywodraeth ganolog, mae cyfle eto i weithio gyda D Ranbarth Caerdydd i gynllunio sut y gellir mynd i'r afael â hyn, gyda rhai cyfleoedd

Tackling Poverty Together

# Addysg a Chyflogaeth

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae data'n dangos, ym mhob ardal ôl troed Cwm Taf Morgannwg, fod lefelau cyrhaeddiad yn is na chyfartaledd Cymru (yn ogystal â bod yn is na rhanbarth Canol De Cymru. Mae'r un peth yn wir am awdurdodau cyfagos (Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen).




Mae bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt: Mae'r data ar gyfer 2019/20 yn dangos bod y bwlch wedi cynyddu ar gyfer graddau A*-A ond wedi gostwng ar gyfer graddau A-C.

Dyfarnwyd graddau i ddisgyblion heb orfod sefyll arholiadau a *allai fod* wedi gwneud gwahaniaeth i'r graddau ar gyfer 2019/20. Roedd y graddau'n seiliedig ar 'amcangyfrif proffesiynol gorau'r athro o'r hyn y byddai'r disgybl yn ei gyflawni pe bai wedi gallu sefyll arholiad'. Nid yw effaith tymor hwy Covid wedi'i gwireddu eto.






Mae data'n dangos, ar draws pob ystod oedran oedolion (16-64 mlwydd oed), mai Merthyr Tudful sydd â'r lefel uchaf o oedolion heb unrhyw gymwysterau.

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae effaith Covid wedi bod yn anodd i ddisgyblion a dysgwyr ei rheoli; rhagwelir y bydd patrymau mynediad tameidiog at ddysgu yn cael effaith negyddol ar gyflawni cymwysterau.

Cafodd iechyd meddwl a lles yr holl ddysgwyr eu heffeithio'n andwyol i raddau gan effaith y pandemig ac roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y dysgwyr mwyaf agored i niwed - gallai hyn gymryd peth amser i gael ei adfer i lefelau blaenorol

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae'r defnydd o **brofiad gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli** yn helpu i ddarparu profiad bywyd go iawn i bobl ifanc
- Drwy **nodi'r gofynion presennol am swyddi yn well**, gallem sicrhau bod y cymorth rydym ni'n ei gynnig i geiswyr gwaith ifanc yn cael ei dargedu i'r mannau lle mae'r galw yn bodoli
- Gallai **rhagweld twf busnes a meysydd datblygu yn y dyfodol** (e.e.) ynni adnewyddadwy/amgen; data; neu dechnoleg; a darparu hyfforddiant wedi'i dargedu i bobl ifanc ddechrau datblygu sgiliau cymwys (a throsglwyddadwy lle bo hynny'n bosibl) ddileu rhwystrau i bo sydd eisiau mynd i fyd gwaith

# Cyflogaeth ac Incwm

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae data'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod **cyflog gros wythnosol** gweithwyr amser llawn wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn




Y diwydiannau sydd â'r nifer fwyaf o bobl yn gweithio ynddyn nhw ym Merthyr Tudful yw:




Gweinyddiaeth gyhoeddus, gwasanaethau amddiffyn: | Manwerthu a Cyfanwerthu | Gwasanaethau Trafnidiaeth | Cynhyrchu | Adeiladu

Mae data Cyfrif Hawlwyr yn dangos mai nifer y **bobl 16-64 mlwydd oed** sy'n hawlio **budd-daliadau allan o waith** ym Merthyr Tudful yw

**1,475 (3.9%)**

Mae data Cyfrif Hawlwyr hefyd yn dangos y grŵp oedran lle mae'r **ganran uchaf o bobl sy'n hawlio budd-daliadau 'allan o waith'**:



**18-21 mlwydd o**
**(3.9%)**



## Heriau Allweddol a Nodwyd

Nid yw cyfradd y cynnydd mewn costau byw yn codi ar yr un cyflymder â'r cynnydd mewn incwm ar gyfer pobl ledled Cwm Taf Morgannwg.

Bydd gofal plant yn broblem i rai teuluoedd lle nad oes ganddynt deulu sy'n byw yn lleol i gynorthwyo i ofalu am blant. Gall cost gofal plant hefyd fod yn afresymol i rai teuluoedd ar incwm isel

Mae trechu tlodi yn parhau i fod yn her hirdymor ar draws y Fwrdeistref Sirol

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Bydd y sefyllfa bresennol sy'n ymwneud â **diffyg staff yn ymuno â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol** yn her ar gyfer y dyfodol agos; ond gallai hefyd gynnig cyfle os yw'r hyfforddiant a'r cynnig datblygu yn un da.
- Mae canran y benywod sydd mewn gwaith rhan-amser yn uwch na dynion felly gallai fod cyfle i edrych ar **sut y gall dynion gael swyddi mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol**
- Bydd gofal plant yn broblem i rai teuluoedd lle nad oes ganddynt deulu sy'n byw yn lleol i gynorthwyo i ofalu am blant. Gall cost gofal plant hefyd fod yn afresymol i rai teuluoedd ar incwm isel — drwy **gynyddu'r gwaith o hyrwyddo cymorth i gael gofal plant o ansawdd d ffforddiadwy a** hygyrch; gallai hyn helpu i leihau lefelau

# Llifogydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

**918**

Mae eiddo preswyl mewn perygl o **lifogydd afonol** (e.e.) afonydd yn byrstio eu glannau. Mae **90** o'r rhain yn wynebu risg uchel.

**3,963**

Mae eiddo preswyl mewn perygl o **lifogydd dŵr wyneb.** Mae **1,707** o'r rhain mewn risg uchel.

Mae tua **650 o** eiddo amhreswyl mewn perygl o lifogydd



Mae **3 ardal** ym Merthyr Tudful ymhlith y 100 ardal uchaf yng Nghymru sydd mewn perygl sylweddol o *lifogydd afonol*:

- Merthyr Tudful
- Troedyrhiw
- Bro Merthyr




Mae **5 ardal** ym Merthyr Tudful ymhlith y 100 ardal uchaf yng Nghymru sydd mewn perygl sylweddol o *lifogydd dŵr wyneb*:

- Merthyr Tudful
- Abercanaid
- Pentrebach
- Troedyrhiw
- Bro Merthyr

**533 (30.9%)** Eiddo sydd wedi ymuno â'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd sy'n cael ei redeg gan Cyfoeth Naturiol Cymru

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Lleihau'r risg i bobl a busnesau o effeithiau llifogydd

Gall effaith ariannol llifogydd fod yn drychinebus i gymunedau

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae gan RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr **gynlluniau llifogydd dalgylch** - dywed yr asesiad anghenion nad yw'r rhain ar waith ym Merthyr Tudful felly mae cyfle i ddatblygu'r rhain
- **Mae annog cymunedau i ymgysylltu a pharatoi'n well ar gyfer y posibilrwydd o lifogydd** yn nod hirdymor. Gall perchnogion cartrefi neu fusnesau y mae eu heiddo mewn perygl o lifogydd dderbyn negeseuon rhybudd CNC dros y ffôn, e-bost neu neges destun os bydd llifogydd posibl.
- Nid yw'n bosibl cael gwared ar y perygl o lifogydd yn llwyr ac felly **bydd addasu, datblygu mwy o wytnwch cymunedol a busnes yn nodweddion allweddol o ran sut rydym yn symud ymlaen**. Bydd deall maint y risg drwy fodelu'r dalgylch dŵr cyfan yn ffactor pwysig wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

# Anghyfreith

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae tipio anghyfreithlon yn fygythiad i bobl a bywyd gwyllt drwy:



Trosglwyddo clefydau drwy wastraff



Llygredd



Halogiad pridd



Llifogydd trwy ddraeniau wedi'u blocio ac ati.

Mae cynnydd yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon ar draws ardal gyfan Cwm Taf: mae data'n dangos y cynnydd rhwng 2017/18 a 2019/20 gyda phroblemau penodol wedi'u nodi ym Merthyr Tudful a RhCT




Ym Merthyr Tudful, mae gan dimau casglu gwastraff hanes cryf o ymateb i adroddiadau o dipio anghyfreithlon.

**100%**

'Cyfradd clirio ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon yr adroddir amdanynt o fewn 5 diwrnod' - yn is na tharged Llywodraeth Cymru



Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

I leihau faint o dipio anghyfreithlon a'i effeithiau ar yr amgylchedd a chymunedau

Y risg y bydd nifer yr achosion tipio anghyfreithlon yn cynyddu o ganlyniad i'r pwysau ar gostau byw sy'n wynebu busnesau a deiliaid tai ar hyn o bryd fel ei gilydd.

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae cyfle i'r **gwahanol asiantaethau gydweithio i dargedu poethfanau** a chefnogi cymunedau sy'n destun tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel;
- Nid gorfodaeth yn unig yw'r camau sydd eu hangen ond hefyd **monitro a gwerthuso'r** broblem, **addysg a chodi ymwybyddiaeth** gan arwain at newid ymddygiad.
- Byddai **gweithio'n agosach gyda siopau bwyd cyflym** i sicrhau eu bod yn glanhau pecynnau sy'n cael eu taflu o'u siopau yn ffordd wych o ddechrau'r gwelliant hwn.

Tackling Poverty Together

# Tirlithriadau

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Yn Adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol' Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, nodir bod rhai o effeithiau mwyaf difrifol newid yn yr hinsawdd yn gysylltiedig â digwyddiadau meteorolegol eithafol fel



Glaw trwm | Stormydd eira | Sychder | Stormydd trwm yn achosi difrod

Gall y rhain achosi neu waethygu digwyddiadau effaith uchel eraill fel llifogydd, tirlithriadau, tanau gwyllt trwy ddadsefydlogi'r dirwedd.

Mae gan ardal CTM, fel yn achos rhannau eraill o Gymru, etifeddiaeth o'i gorffennol diwydiannol ar ffurf tomenni rwbel pwll glo o gloddio glo. Mae nifer o domenni glo ar draws Cwm Taf Morgannwg:

| | |
|---|---|
| 59 | Merthyr Tudful |
| 31 | Pen-y-bont ar Ogwr |
| 75 | RCT |



Bu achosion yn y gorffennol lle profwyd tirlithriadau ar draws Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful — mae'r rhain wedi arwain at ganlyniadau mawr (pontydd wedi'u tan-gloddio; tai yn cael eu rhoi mewn perygl; a cholli nifer o fywydau), mae hyn yn golygu bod y risg o dirlithriadau yn codi wrth i effaith cynhesu byd-eang ddod yn fwy amlwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Diogelu pobl a'r amgylchedd rhag tirlithriadau

Effaith newid yn yr hinsawdd; ac mae'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ein patrymau tywydd yn golygu y dylai tirlithriadau barhau i fod yn ystyriaeth allweddol fel rhan o agenda atal trychinebau y Cyngor

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Nid oes amheuaeth bod diogelwch tomenni glo yn parhau i fod yn bryder i gymunedau a'r amgylchedd. Nodwyd ei fod yn broblem drwy'r ymarfer ymgysylltu â'r gymuned. Mae cyfle i **ddatblygu cynllun tymor hir**.
- Bydd gwneud gwaith helaeth gan yr amrywiol asiantaethau i **fonitro a chynnal sefydlogrwydd** a gwneud gwaith angenrheidiol yn helpu i roi sicrwydd i gymunedau.
- Rhan annatod o unrhyw gynllun yw'r cyfle i **adeiladu ar yr ymdeimlad cryf o gymuned** a ddangoswyd yn dilyn y stormydd diweddaraf a achosodd dirlithriadau (a llifogydd). Gall y cynllun hefyd sicrhau bod cyfleoedd diwylliannol ac amgylcheddol yn gallu bod yn rhan annatod o faterion diogelwch.

# Iechyd Meddwl

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae tystiolaeth yn cefnogi'r cysylltiad cryf sydd eisoes yn bodoli rhwng iechyd meddwl gwael ac amddifadedd economaidd.

| | Cyfradd cyflwr iechyd MALIC a gofnodwyd gan GP | |
|---|---|---|
| Penydarren 1 | 32.3 | 7 |
| Parc 3 | 31.1 | 153 |
| Dowlais 1 | 30.9 | 127 |




**4.6%** preswylwyr ar draws Merthyr Tudful yn derbyn budd-dal sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl

Mae StatsCymru yn dangos bod y cynnydd yn nifer y **plant a phobl ifanc sy'n mynychu cwnsela** ym Merthyr Tudful wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, o **219** yn 2016-17 i **384** yn 2020-21. Y prif faterion sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau



Dicter



Teulu



Iselder




Pryder




Hunan-barch isel

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Roedd adborth gan wahanol gymunedau wrth ymgysylltu yn nodi Iechyd Meddwl yn gyson fel mater o ran cael gafael ar gymorth yn ogystal â bod yn her ar gyfer y dyfodol.

Sicrhau mynediad at ystod o weithgareddau a chymorth mewn cymunedau sy'n gwella iechyd meddwl ac yn darparu cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen i atal pobl rhag gwaethygu. Bydd yr adferiad o effaith y pandemig yn ystyriaeth allweddol yn hyn o beth.

Sicrhau bod materion iechyd meddwl yn cael eu cydnabod yn gynnar a bod darpariaeth cymorth ar gael yn gynnar i alluogi ymyrraeth effeithiol i atal uwchgyfeirio.

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae **rhyngweithio â gwasanaethau iechyd yn anghyson** a gallant effeithio'n negyddol ar sut y gallwn ni weithio gyda nhw i ddarparu cymorth wedi'i dargedu'n fwy.
- Fel aelod craidd o'r PSB, **gallai MTCBC godi'r pwnc hwn yn y PSB fel cyfle i archwilio gwneud iechyd meddwl yn amcan craidd yn y cynllun llesiant rhanbarthol wedi'i ailffocysu** gyda'r bwriad o sicrhau pawb a allai gael dylanwad ar wella'r gweithgareddau ymateb iechyd meddwl.
- **Ystyried defnyddio tir rydym ni'n berchen arno i sefydlu mwy o randiroedd**; helpu iechyd meddwl a chefnogi sefyllfa well

Tackling Poverty Together

# Treftadaeth, Diwylliant a'r Gymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae gan Ferthyr Tudful **233** o **adeiladau rhestredig** o fewn ei ffiniau gan gynnwys

- Mae'r pentref glofaol gwag yn Ffos-y-fran wedi'i ddynodi'n **Heneb Gofrestredig** (GM496)
- Mae **categoreiddiad Parc Hanesyddol** wedi cael ei roi i Gastell Cyfarthfa;
- Traphont Cefn;
- Neuadd y Cyn-lowyr (Canol y Dref);
- Theatr Frenhinol;
- Eglwys Dewi Sant;
- Cloc Pandy;
- Stryd Nightingale, Abercanaid; a
- Llyfrgelloedd Dowlais, Merthyr a Threharris



Mae llyfrgelloedd nid yn unig yn benthyg llyfrau - maen nhw'n darparu amrywiaeth o weithgareddau i blant/pobl ifanc ac oedolion. Mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn cysylltu â diwylliant a threftadaeth yr ardal leol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cofnodi cynnydd graddol yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ym Merthyr Tudful

2019 - **18.5%**

2020 - **19.8%**

2021 - **20.2%**

Mae'r ganran uchaf o drigolion Merthyr Tudful sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn yr LSOAs canlynol:

Treharris 1 - **12.4%**

Cyfarthfa 1 - **10.5%**

Treharris 3 - **9.5%**



## Heriau Allweddol a Nodwyd

Difrod i'n hasedau treftadaeth ddiwylliannol o ganlyniad i newidiadau tymheredd, dyddodiad, dŵr daear a thirwedd.

Cyrraedd targedau heriol a osodwyd mewn perthynas â Chymru yn cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae rhagor o gyllid yn cael ei geisio i **ddarparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb plant ac oedolion.**
- Cafodd y cysylltiad rhwng llyfrgelloedd a diwylliant ei nodi gan yr ymgysylltu; gyda galwadau am **fwy o weithgareddau; llyfrau a gwybodaeth yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru**
- Rhai o'r meysydd a amlygwyd yn yr ymgysylltiad oedd **fforddiadwyedd mynediad i rai cyfleusterau hamdden**. Roedd hyn yn arbennig o wir i bobl ifanc a siaradodd am gost gwneud gweithgareddau o chwaraeon i raddau piano. Mae ystyried hyn wrth gostio gwasanaethau yn hanfodol i gefnogi galw sy'n datblygu ar delerau hylaw

# Tai a Digartrefedd

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae'r data stoc dai ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dangos gostyngiad bach rhwng 2016-17 a 2020-21

**-0.6%**

**49**




o unedau fforddiadwy wedi u hadeiladu yn 2020/2021 — cynnydd yn y lefelau a adeiladwyd yn y 4 blynedd flaenorol

Mae'r rhent cyfartalog yn wahanol ar gyfer Landlordiaid Preifat a Chymdeithasol. Yn 2019, mae data'n dangos y canlynol:

| | Rhent Cymdeithasol | Rhent Preifat |
|---|---|---|
| Merthyr Tudful | £375.87 | £493.57 |
| Cymru | £487.29 | £598.19 |

Mae data ar Stats Cymru yn dangos bod **pobl wedi cael eu hatal rhag bod yn ddigartref** ym **Merthyr Tudful** yn 2019 **51**

**141** cafodd pobl eu cefnogi i gael llety arall

Mae cyfradd llwyddiant atal digartrefedd yn **uwch ym Merthyr Tudful nag yng ngweddill Cwm Taf,** gyda'r prif faes cymorth a ddarperir yn ymwneud â meysydd ariannol, cyfryngu a chymodi

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae'r mentrau i gefnogi'r digartref sy'n byw ar y strydoedd yn ystod Covid wedi bod yn llwyddiannus i rai wrth ymgysylltu â gwasanaethau. Gallai parhau i allu cefnogi'r rhai sy'n ddigartref wrth symud ymlaen leihau'r nifer sy'n byw ar y stryd; fodd bynnag, rhaid cael digon o arian i wneud hynny

Rheoli'r tensiwn ynghylch ateb y galw am dai tra hefyd yn cynnal mannau gwyrdd at ddefnydd cymunedau

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- **Roedd ymgysylltu â'r cymunedau wedi nodi bod fforddiadwyedd tai yn bryder sylweddol** i lawer naill ai o ran prynu eiddo neu rentu ac mae cyfle i weithio gyda gwasanaethau tai i sicrhau bod y neges hon yn parhau i fod yn amlwg;
- Mae cynlluniau Rhanbarth Dinas Caerdydd yn cynnwys **cymorth ar gyfer adeiladu tai** i fynd i'r afael â materion hyfywedd sy'n atal datblygiadau tai newydd yn yr ardal rhag symud ymlaen.
- **Dylid rhoi gwybod i geisiadau cynllunio yn y dyfodol am yr anghenion tai newidiol yn yr ardal** cyn iddynt gyflwyno cynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd

Tackling Poverty Together

# Gordewdra

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dan



**60%**

Oedolion y nodwyd eu bod dros bwysau neu'n ordew, gyda **24%** o'r rhain yn ordew

**12.6%**

Cafodd Plant yng Nghymru eu categoreiddio'n ordew yn 2018/19 o gymharu â 12.0% yn 2017/18.





Mae gan Ferthyr Tudful y **trydydd nifer uchaf o siopau bwyd cyflym** fesul 100,000 o'r boblogaeth (118) yng Nghymru, gyda dim ond Gwynedd (133) a **Blaenau Gwent (125)** â mwy.



Mae Data Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos y gall fod cysylltiadau rhwng gordewdra a diabetes; salwch cyhyrysgerbydol a phroblemau calon — gall pob un ohonynt fod yn gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gordewdra yn aml yn cael ei wneud yn waeth gan ... dd o f... ys:



Statws ysmygwr



Gweithgarwch Corfforol



Cyrhaeddiad addysgol

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Annog a chefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymddygiad iach i gefnogi pwysau iach

Cyflwyno plant i ffordd iach ac egnïol o fyw yn gynnar er mwyn atal ymddygiad afiach rhag gwreiddio yn y dyfodol sy'n arwain at fagu pwysau afiach. Addysgu plant am bwysigrwydd diet amrywiol i sicrhau eu bod yn gallu gwneud dewisiadau da.

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Cymryd rôl weithredol wrth **gyfeirio at ffynonellau gwybodaeth** fel gwefan 'Newid am Oes Cymru' Iechyd Cyhoeddus Cymru gan sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth ddiweddaraf i'w cefnogi;
- Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ddarparu **rhaglen Teithio Llesol** y Cyngor; a pharhau i geisio adborth gan ddinasyddion ynghylch yr hyn a fydd yn eu helpu;
- Ailedrych ar strategaeth Llywodraeth Cymru 'Pwysau **Iach Llywodraeth Cymru: Cymru Iach**' i nodi sut y gellir ymateb i'r themâu sydd wedi'u cynnwys ynddo;
- Sicrhau bod gwaith gyda phartneriaid Iechyd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen '**Mesur Plant**' yn cael ei gynnal a bod y data'n

# Tlodi

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod **dwy** ardal allbwn ehangach is ym Merthyr Tudful sydd â **thlodi dwfn**. Y rhain yw:

| | Safle MALlC |
|---|---|
| Bro Merthyr 2 | 17 |
| Penydarren 2 | 4 |

Mae data dros dro DWP yn dangos mai'r nifer **sy'n byw mewn incwm isel absoliwt** ym udful yw:



Rhiant Unigol
**1096**



Cwpl
**1051**

Y wardiau sydd â'r nifer uchaf yn byw mewn incwm isel absoliwt yw:

| Ward **Gurnos** | Ward **Penydarren** | Ward **Cyfarthfa** |
|---|---|---|
| **301** | **271** | **256** |



Bu cynnydd sylweddol yng nghyfanswm y parseli a roddwyd gan Fanciau Bwyd

2019/2020 - **3,623**
2020/2021 - **5,218**




O fis Hydref 2021, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd
**196,000 (14%)**
o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae gan Ferthyr Tudful gyfran sylweddol o aelwydydd mewn ardaloedd o amddifadedd uchel — mae cefnogi cymunedau i reoli a dod allan o'r anawsterau maen nhw'n eu hwynebu yn parhau i fod yn fater 'anodd'.

Mae'r 'argyfwng cost byw' (y gostyngiad mewn incwm gwario 'go iawn' y mae'r DU wedi'i brofi ers diwedd 2021) yn cael ei achosi'n bennaf gan chwyddiant uchel sy'n uwch na chynnydd mewn cyflogau a budd-daliadau; mae hyn wedi'i waethygu gan y cynnydd mewn trethi diweddar.

Gallai'r cam arfaethedig i ailasesu bandiau Treth y Cyngor a wnaed gan Lywodraeth y DU ychwanegu pwysau arall ar ddinasyddion sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi.

## Nodyn:

Mae tlodi'n golygu methu â chynhesu'ch cartref, talu'ch rhent, na phrynu'r hanfodion i'ch plant. Mae'n golygu deffro bob dydd yn wynebu ansicrwydd, anniogelwch, a phenderfyniadau amhosibl am arian. Mae'n golygu wynebu ymyleiddio — a hyd yn oed gwahaniaethu — oherwydd eich amgylchiadau ariannol. Gall y straen cyson y mae'n ei achosi arwain at broblemau sy'n amddifadu pobl o'r cyfle i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

Gellir gweld effaith tlodi ac amddifadedd ar draws nifer o'r themâu yn y ddogfen hon; a dim ond gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd a gyda chymunedau i ddatblygu atebion cydweithredol all fynd i'r afael â nhw

# Aelwydydd Sengl

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae amcanestyniadau aelwydydd rhwng 2018 a 2043 yn dangos y bydd **cynnydd mewn aelwyd 1 oedolyn â phlant**.





Mae amcanestyniadau aelwydydd rhwng 2018 a 2043 yn dangos y bydd **gostyngiad mewn aelwyd 2 oedolyn â phlant**.

Rhagwelir hefyd y bydd cynnydd mewn cartrefi 1 person.

Bydd hyn yn effeithio ar y math o dai sydd eu hangen i ddiwallu anghenion newidiol pobl yr ardal.




Mae'r galw am eiddo 1 a 2 ystafell wely ar fin codi

Rhagwelir y bydd y galw am dai gyda mwy na 3 ystafell wely yn gostwng




Mae'r tebygolrwydd y bydd y rhai sy'n sengl am wahanol resymau yn byw yn y **10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig** yn uwch na'r rhai sy'n byw fel cwpl.

Gall hefyd effeithio ar **y nifer sydd angen cymorth ariannol** gyda'r cynnydd mewn aelwyd 1 oedolyn â phlant.




## Heriau Allweddol a Nodwyd

Cefnogi aelwydydd sengl gyda phlant i'r gwaith a darparu gofal plant fforddiadwy

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae'n debygol y bydd her o ran cefnogi'r aelwydydd sengl hynny sydd â phlant i barhau mewn gwaith neu i gael gwaith oherwydd cyfrifoldebau gofalu am blant. — bydd **hyrwyddo cyfleoedd i sicrhau gofal plant fforddiadwy, hygyrch** yn ffordd hanfodol o gefnogi pobl
- Mae'r data'n dangos data fod y rhai sy'n anabl yn dymuno gweithio ac yn barod i weithio ond nad ydynt mewn cyflogaeth — bydd **canolbwyntio ar sut y gallwn ni gysylltu pobl â chyfleoedd** yn ffordd wych o gael gwared ar rwystrau
- **Cynigir treialon gwaith peilot i bobl ag anabledd** fel y gallant asesu addasrwydd ar gyfer rôl benodol
- Mae hefyd yn debygol y bydd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn FSM ar gyfer y rhai mewn teuluoedd incwm isel - **dylid sicrhau bod y teuluoedd hyn yn cael gwybod am ffynonellau eraill o gymorth sy'n agored** (e.e.) grantiau gwisg ysgol ac ati.

Tackling Poverty Together

# Seinweddau a Llygredd Sŵn

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos



Cynhaliodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ymchwil sy'n dangos, ledled Cymru;

**roedd 27%**

o bobl yn cael eu 'poeni' gan sŵn.

Mae 3 phrif fath o lygredd sŵn:

Domestig:



Masnachol:



Diwydiannol





**Prif achos sylfaenol llygredd sŵn yw traffig ffyrdd**; ac mae Merthyr Tudful wedi'i nodi fel "poethfan" yn Ne Cymru

**Gall llygredd sŵn gynyddu'r risg o salwch, ac ansawdd bywyd gwael**; gan gynnwys lefelau straen uwch; colli cwsg; blinder meddwl ac ati.

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae sŵn yn gynyddol yn dod yn bryder i bobl a'u lles

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Cefnogi'r broses lle mae'r wlad yn symud tuag at **gerbydau trydan; ac yn hyrwyddo pa gyfleusterau sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol i gefnogi'r trosglwyddiad hwn**

# Defnyddio Adnoddau Naturiol

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Ym Merthyr Tudful, maint y gwastraff preswyl sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yw **196kg**





Mae canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio ym Merthyr Tudful yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru ar **65%**

---

Tunelli o allyriadau sydd wedi'u hosgoi ym Merthyr Tudful **8 tunnell**




---

Nifer y Mannau Agored â Blaenoriaeth (allan o 23 o Fannau Agored Blaenoriaeth) sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar y safon ansawdd: **Mae Iach, Saff a Diogel ym Merthyr Tu**



2018/19 - **8**
2019/20 - **9**
2020/21 - **9**
2021/22 - **11**

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Gwneud gwell defnydd o'n hadnoddau naturiol a datblygu economi atgynhyrchiol

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae'n rhaid i ni **ddatgarboneiddio ein system ynni** mewn ffordd sy'n gwella lles yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni **ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon, lleihau allyriadau o gynhyrchu tanwydd ffosil a chynyddu cynhyrchiant o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel**.
- Bydd angen i ni gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy os ydym ni am fodloni'r galw cynyddol am drydan sy'n deillio o ddatgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth Parhau i weithio tua gyflawni **targedau ailgylchu** Llywodraeth Cymru
- Asesu cyfleoedd ar gyfer gwaith cydweithredol o amgylch siopau **ailldef atgyweirio**

Tackling Poverty Together

# Tanau Gwyllt

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos



Rhwng 2018 a 2020, **roedd dros hanner y tanau gwyllt bwriadol** a gafodd eu mynychu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

**264/418 (63%)**

Roedd lefel y tanau bwriadol ar laswelltir, coetiroedd a chnydau ym Merthyr Tudful yn ystod y blynyddoedd diwethaf **wedi rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus**; gellir gweld bod hyn wedi gwella dros y 2 flynedd ddiwethaf

| | |
|---|---|
| 2017/18 - | **69** |
| 2018/19 - | **152** |
| 2019/20 - | **64** |
| 2020/21 - | **74** |

Wedi dyblu mewn 12 mis



Gall goblygiadau ariannol tanau gwyllt fod yn drychinebus; yn enwedig lle nad oes gan y dioddefwyr fawr ddim yswiriant, os o gwbl.

Gall hefyd gael effaith ar dwristiaeth.

Mae effaith tanau gwyllt yn niferus ac yn gymhleth; ac maen ... ynnwys:



Risg i fywyd



Colli bywyd gwyllt



Dinistrio cynefin



Difrod/colli eiddo



Effaith ar ansawdd aer

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae tanau gwyllt yn cael effaith gynyddol ar yr ardal yn amgylcheddol; a gallant ychwanegu at yr heriau a wynebir o ran datgarboneiddio

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Byddai **rheoli tir ac ystadau'r Cyngor yn effeithiol** fel nad yw deunydd ar gael mor hawdd fel ffynhonnell tanwydd neu dŵr ffo yn fesur ataliol yn ogystal â chefnogi gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth.

# Iechyd Dŵr

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae pwysigrwydd afonydd glân i bobl yn cael ei gydnabod gan ei fod yn cefnogi nifer sylweddol o weithgareddau awyr agored yn amrywio o bysgota i gychod a hamdden cyffredinol.



Wrth i Ferthyr Tudful barhau i ddatblygu fel cyrchfan twristiaeth, **mae cael iechyd dŵr da yn hanfodol bwysig** ac mae ganddo gysylltiad agos â'r economi leol.

Mae cysylltiadau agos rhwng ansawdd dŵr a lles pobl.  Er bod cyfnod o adferiad wedi bod o orffennol diwydiannol yr ardal sydd wedi gweld gwelliant mewn iechyd dŵr, mae ffynonellau newydd o lygryddion o drefoli cynyddol wedi digwydd.




Daethpwyd o hyd i ficro-blastigau yn amgylchedd y dŵr yn nalgylch Taf sy'n dangos bod plastigau wedi cael eu trosglwyddo o ysglyfaeth i ysglyfaethwr ac oedolyn i epil.

Gall llygredd dŵr ddod o ffynonellau eraill; yr uchaf o'r rhain yw carthion sy'n cael eu gollwng i mewn i gwrs dŵr.  Nifer y damweiniau llygredd dŵr ym Merthyr Tudful yn 2019 (gwiriwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru)

**15**
achos

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Mae gwella ansawdd ein hafonydd yn bwysig i bobl ac i wneud natur yn fwy gwydn

Mae ymwybyddiaeth gynyddol o sut y gall materion fel y cynnydd mewn micro-blastigau a geir mewn dŵr gael effaith niweidiol ar iechyd pobl ac anifeiliaid

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Mae'r rhesymau dros beidio â chyflawni Statws Ecolegol Da o ganlyniad i boblogaethau isel o bysgod ac infertebratau. - trwy **fonitro ac asesu ein ffyrdd dŵr** gallwn wneud gwaith ataliol mewn perthynas â hyn; neu gallwn ymgymryd ag ymyrraeth gynharach pe bai problem yn codi
- O fewn ardal CTM, rhwng 2016 a 2020, roedd gan Ferthyr Tudful 15 o achosion o lygredd amgylcheddol. Dylai'r Cyngor gymryd camau i **ddal llygryddion a nodwyd i gyfrif**
- **Hyrwyddo lleihau plastigau untro** ar draws y Fwrdeistref Sirol; gweithio gyda busnesau lleol i ail-orfodi'r camau allweddol hyn

# Troseddau Ieuenctid

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf (YOS) yn darparu'r cymorth i droseddwyr ifanc a'r rhai yn agos i droseddu. Mae data'n gyfyngedig oherwydd effaith Covid ar gyflenwi gwasanaethau

Gwrywod yw'r rhan fwyaf o droseddwyr yn yr ardal; gyda nifer is o fenywod yn cael cymorth



Mae'r rhan fwyaf o droseddwyr yn yr ardal rhwng

**15 a 17 mlwydd oed**

Mae'r prif bartneriaid sy'n cefnogi YOS Cwm Taf yn cynnwys:

HM Prison & Probation Service

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil County Borough Council

Strong Heritage | Strong Future Rhondda Cynon Taf

South Wales Police and Crime Commissioner / Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Cynnal yr ymyriadau sy'n darparu canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc a'u teuluoedd.

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Byddai **cymorth amlasiantaeth ar gyfer y rhai sy'n cael anawsterau mewn addysg, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn fuddiol**. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu gofynion Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru o ran hyrwyddo plant sy'n derbyn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ataliol wedi'u targedu ar y pwynt cynharaf, er mwyn osgoi ymddygiad/euogfarnau troseddol pellach.
- Mae cyfleoedd i **ymgysylltu cymunedol â phobl ifanc i ddeall eu hanghenion ac i sicrhau eu bod nhw'n teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu** ac nad ydynt yn cael eu 'beio' am ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i gwrdd â ffrindiau.

# Gwirfoddoli

## Data/Tystiolaeth Allweddol yn dangos

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer ardal Merthyr Tudful; ac mae'n gweithio'n agos gydag Interlink yn RhCT.
Mae nifer y lleoliadau gwirfoddoli a wneir gan Swyddfa Gwirfoddolwyr VAMT yn dangos y data canlynol:

| 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| **162** | **152** | Dim Data | **97** |

Roedd gweithgareddau gwirfoddoli yn cynnwys:



Cerdded cŵn cyfeillio | Casglu presgripsiwn | Siop | Galwadau

Chwaraeodd sefydliadau'r trydydd sector a'r gwirfoddolwyr **rôl hanfodol wrth reoli effaith y pandemig**; ac mae cyfleoedd yn parhau i fod ar gyfer cydweithio, yn enwedig wrth gysylltu â chymunedau.

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Heriau Allweddol a Nodwyd

Rheoli'r gostyngiad yn nifer y gwirfoddolwyr yn dilyn y pandemig.

## Bylchau (Cyfleoedd i Wella Cymorth)

- Ystyried ailgyflwyno'r cytundebau COMPACT lleol gyda Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful i ategu'r gwaith cydweithredol presennol a wneir
- Ystyried sut y gallai'r Cyngor gynnig cyfleoedd gwirfoddoli

# Strategaethau a Chynlluniau Allweddol

## Cynllun Lles Corfforaethol

- Codi Dyheadau, Codi Safonau

- Gweledigaeth Economaidd 15 mlynedd a Chynllun Adferiad Economaidd
- Strategaeth Twf Economaidd
- Strategaeth Taf Bargoed
- Strategaeth Treftadaeth
- Cynllun Creu Lleoedd Hwb Dyffryn Strategol Merthyr Tudful 2019-2025
- Prif Gynllun Ardal Treftadaeth Cyfarthfa;
- Cynllun Merthyr Llesol
- Y Cynllun Teithio Llesol
- Strategaeth Digartrefedd MTCBC
- Cynllun Datblygu'r Gweithlu
- Prif Gynllun Canol y Dref
- Cynllun Datblygu Lleol 2016-2023

- Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2016-2031
- Cynllun Rheoli Carbon 2019
- Strategaeth Mannau Agored 2016
- Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd 2021
- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 2021-2025
- Cynllun Cynnal a Chadw Gaeaf 2021
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2014-2019
- Cynllun Rheoli Gwastraff 2015-2025
- Strategaeth Mannau Agored

- Strategaeth ar gyfer Cymorth Cynnar: Pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn
- Strategaeth Pobl sy'n Gadael Gofal — Gwneud fy Mhenderfyniad fy Hun
- Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant Cynaliadwy 2020-2023
- Strategaeth Llwyddiant, Cynaliadwyedd a Phontio
- Datganiad o Fwriad Anabledd Dysgu (Rhanbarthol)
- Strategaeth Pobl Hŷn (Rhanbarthol)
- Strategaeth Gwasanaeth Dydd Anableddau Dysgu
- Cynllun Strategol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Cwm Taf 2017-2020
- Strategaeth Gofalwyr (Rhanbarthol)
- Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf 'Cynllun Rhanbarthol 2018-2023

- Cynllun Rheoli Asedau
- Cynllun Datblygu'r Gweithlu
- Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2021-2026
- Cynllun Datgarboneiddio
- Strategaeth Cyfranogiad*
- *Strategaeth Adnoddau Dynol*

Ffynhonnell: Adroddiadau Thematig a baratowyd ar gyfer Pwyllgor Craffu Trawsnewid